



Ymunwch â ni mis Hydref yma i *Godi Llais* am newid hinsawdd.

Trefnwyd gan [Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru](#), clymblaid o 16 o fudiadau dylanwadol Cymreig. Bydd y *Lobi Hinsawdd Leol* yn gyfle i lobio Aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn ddiweddar yn ogystal ag Aelodau Seneddol, ac i geisio ymrwymadau o'r newydd i ddiogelu ein planed a'r pethau yr ydym yn eu caru.

[Cofrestrwch nawr>>>](#)

Gallwch chi drefnu neu gymryd rhan mewn lobi yn eich ardal leol?

Mae pobl eisoes yn dyfeisio ffyrdd unigryw ac arloesol i sgwrsio gydag Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) am yr hinsawdd, gan bwysleisio pa mor bwysig y bydd parhau i weithredu dros yr hinsawdd er mwyn amddiffyn y bobl a'r lleoedd yr ydym yn eu caru.

- ♥ **Dathlwch bethau gorau eich cymuned** - Drwy ddathlu'r bobl, lleoedd a phethau rydym am eu hamddiffyn rhag newid hinsawdd, gallwn ni wneud yn siŵr bod gwleidyddion yn gweld ac yn teimlo ein consyrn. Beth am wahodd eich ACau ac AS i fynychu cyfarfod yn eich ysgol neu adeilad cymunedol lleol sydd â phaneli solar ar y to? Fferm wynt sy'n eiddo i'r gymuned? Adeiladau arloesol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon? Neu randir?
- ♥ **Teithiau cerdded natur** - Gallwch wahodd eich ACau ac AS i werthfawrogi rhai o'r lleoedd syfrdanol, natur a bywyd gwyllt y gellid eu gollu oherwydd newid hinsawdd.
- ♥ **Partion te a boreau coffi** - Gallwch gynnal digwyddiad mewn neuadd eglwys, siop elusen leol neu gaffi a gwahodd eich ACau a'ch AS.
- ♥ **Gallwch wneud unrhyw beth!** - Y peth pwysig yw gadael i'ch ACau a'ch AS wybod eich bod yn poeni am y mater a'ch bod eisieu iddynt weithredu.

Pam ydym ni'n gwneud hyn yn awr?

Mae'n amlwg ein bod mewn cyfnod o newid gwleidyddol mawr. Does neb yn gwybod yn union eto beth yw oblygiadau llawn digwyddiadau'r misoedd diwethaf na sut fydd pethau'n datblygu. Ond mae ambell i beth yn sicr:

Rydym yn gwybod yn awr, yn fwy nag erioed, bod rhaid i ni barhau i *Godi Llais* dros bopeth yr ydym am eu hamddiffyn rhag newid hinsawdd.

Rydym yn gwybod bod awydd cryf gan y cyhoedd yng Nghymru i gymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Rydym hefyd yn gwybod bod llawer o wleidyddion yn annhebygol o gymryd camau oni bai eu bod yn sylweddoli faint yr ydym yn poeni, a faint ohonom sy'n poeni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ddefwriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd a symud at fod yn genedl gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ond gyda Chynulliad newydd ar waith ers mis Mai, mae angen i Gymru i ddangos i'r byd bod mynd i'r afael â newid hinsawdd yn dal i fod yn flaenoriaeth, er gwaethaf ansicrwydd mewn manau eraill.

Ym mis Hydref byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymadau hyn. Byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu cynllun uchelgeisiol o sut i gyrraedd ein targedau lleihau carbon yn llawn a sut i gyflymu'r camau tuag at economi carbon isel yng Nghymru.

Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i gryfhau perthynas leol rhwng ACau, ASau, a'u hetholwyr wrth i ni geisio gweithredu ar newid hinsawdd, yn lleol ac yn fyd-eang.

Nawr yw'r amser! Mae angen i ni sicrhau y gall ACau ac ASau weld, clywed a themlo faint yr ydym yn poeni, a faint ohonom sy'n poeni.

Sut allwch chi gymryd rhan?

Byddwn yn cadw golwg ar ac yn arddangos pob un o'r digwyddiadau mawr y mae pobl ar draws Cymru yn eu cynllunio ar [fap rhyngweithiol ar-lein](#). Ar y map gallwch:

♥ Gofrestru fel trefnydd lleol

Bydd hyn yn dangos i ni ac i bobl eraill sydd â diddordeb yn eich ardal, eich bod yn gobeithio trefnu digwyddiad fel rhan o'r ymgyrch *Codi Llais*.

♥ Gofrestru eich digwyddiad

Gallwch ychwanegu digwyddiad cyn gynted ag y bydd gennych ddyddiad i annog eraill i gymryd rhan, ac ychwanegu mwy o fanylion wrth i chi fynd ymhellach gydach cynllunio.

♥ Cofrestru i fynychu digwyddiad

Byddwch yn medru cael mwy o wybodaeth am yr Lobi Hinsawdd Leol ac yn benodol am ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu yn eich ardal chi. Drwy gofrestru, efallai y byddwch yn annog eraill i drefnu digwyddiad os nad oes un eisoes wedi'i gynllunio (byddwch yn ymddangos fel 'pin' ar y map).

♥ Pori

Gallwch ddarganfod os yw pobl eraill yn eich ardal yn bwriadu cynnal (neu fynychu) digwyddiad drwy roi eich côd post.

Mae'r lobi yma'n rhan o weithredu Newid Hinsawdd ar draws gwledydd Prydain. Plis gwahoddwch eich AS yn ogystal a'ch AC. Mae [adnoddau ar gyfer gwahodd a lobio eich AS ar gael yma](#).

Cofrestrwch yma i gadw mewn cysylltiad i gael mwy o wybodaeth, cofrestru digwyddiadau neu gael gwybod am ddigwyddiadau yn eich ardal chi. Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn derbyn yr holl wybodaeth y bydd angen i chi i lobio eich AC a'ch AS!



Rhys Williams
stopclimatechaoscymru@gmail.com
029 2084 4646

